

# Gwers 27 – Iesu yn cyfarfod Mathew

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Mathew 9:9–13

**G**welsom yn y wers flaenorol bod gan draean os nad hanner y disgyblion a ddewisodd Iesu gysylltiad â'r byd pysgota, a hynny'n naturiol â hwythau'n byw o gwmpas Môr Galilea. Yr oedd Mathew yn perthyn i faes gwahanol, sef casglu trethi, a gwyddai beth fyddai canlyniad gadael y dollfa. Gallai'r pysgotwyr ddychwelyd i'r byd hwnnw ond byddai Mathew yn gwneud ei hun yn ddi-waith. Dywed Marc wrthym ei fod yn fab i Alffeus, yn cael ei adnabod hefyd fel Lefi (Marc 2:14), ac o ddyddiau cynnar yr Eglwys Gristnogol, priodolwyd awduriaeth Efengyl Mathew i'r cyn gasglwr trethi.


Byddai cefndir a thalentau Mathew yn werthfawr i Iesu. Fel casglwr trethi roedd Mathew'n siŵr o fod yn brofiadol fel llythyrwr ac mewn cadw cofnodion, cymwysterau addas ar gyfer ysgrifennu am fywyd a gwaith Iesu yn ddiweddarach. Yn ychwanegol, rhaid ei fod yn ŵr o argyhoeddiadau ysbrydol dwfn. Datguddir hynny yn ei ofal am ei gydweithwyr pan wahoddodd hwy i bryd bwyd yn ei dŷ. Mae'n bosibl mai diben eu gwahodd oedd ceisio'u hennill i Iesu. Ar wahân i'r cyfeiriadau ato yn rhestrau'r disgyblion ym Mathew (10:3), Marc (3:18) ac Actau (1:13) nid oes gyfeiriad at Mathew yn unman arall yn y Testament Newydd.

Gwaith Mathew oedd sicrhau fod trigolion a masnachwyr a deithiai drwy'r ardal yn talu trethi. Caniateid i gasglwr trethi dderbyn comisiwn fel tâl, ond er mwyn sicrhau bywyd cysurus iddynt eu hunain a throsglwyddo'r hyn a ddisgwylid i'r Rhufeiniaid, byddai'r prif gasglwr a'r casglwyr trethi yn trethu'r bobl yn ormodol.

Ni fyddai Mathew'n boblogaidd iawn yn yr ardal, oherwydd roedd yr Iddewon yn casáu casglwyr trethi ac yn eu hystyried yn fradwyr i lywodraeth estron. Roedd enw Mathew, felly, yn destun gwatwar yn yr ardal. Ni fyddai person croendenau'n para'n hir yn y swydd. Gwyddai Iesu y byddai'n rhaid i unrhyw un a anfonai allan fel apostol, fod yn berson a allai ddioddef geiriau gwatwarus eraill, e.e. y Phariseaid. Gwelir hynny ym Mathew 9:11 pan wahoddodd Mathew Iesu i bryd bwyd yn ei dŷ, 'dyma lawer o gasglwyr trethi ac o bechaduriaid yn dod ac yn cyd-fwyta gyda Iesu a'i ddisgyblion' (Mathew 9:10). Ymateb y Phariseaid a'r ysgrifenyddion pan welsant hynny oedd grwgnach wrth ei ddisgyblion, 'Pam y mae eich athro yn bwyta gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid?' (Mathew 9:11).

### Talu a chasglwyr trethi

Yn nyddiau cynnar hanes Israel defnyddid trethi i gynnal y Tabernacl a'r Deml (Deut. 14:22–27). Pan alwodd y bobl am frenin rhybuddiodd Samuel hwy y byddent yn wynebu trethi uwch, a phrofwyd hynny yn nyddiau Solomon gyda'i raglen adeiladu a ffordd wastraffus o fyw. Erbyn dyddiau'r Testament Newydd telid trethi i'r Ymherodraeth Rufeinig. Byddai swyddogion Rhufeinig yn gwerthu'r hawl i gasglu trethi mewn ardal i'r cynigydd uchaf. Cyfrifoldeb y prif gasglwr trethi oedd sicrhau swm penodol o arian i'r llywodraeth a chyflogai bobl leol yn gasglwyr. Un o'r prif swyddogion hynny oedd Saccheus ac yr oedd yn ŵr cyfoethog (gweler Gwers 36).



Mae Iesu'n dweud wrth Mathew am ei ddilyn.  
Beth wnaeth Mathew cyn iddo ddod yn un o ddilynwyr Iesu?  
Fedri di ddod o hyd i o leiaf wyth peth rhyfedd yn y llun?  
Mae'r stori hon yn Mathew 9:9-13.

# Gwers 27 – Iesu yn cyfarfod Mathew

## Dyn wrth ei waith | Mathew 9:9–13

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 116



#### Gwers 27

Iesu yn cyfarfod Mathew

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Iesu yn cyfarfod Mathew tud 116

#### BEIBL LLIW STORI DUW

Mathew yn ymuno â Iesu tud 230

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Dyn wrth ei waith tud 149

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Mathew y casglwr trethi (241) tud 130

### I ddechrau

Bydd angen paratoi 5 cerdyn maint cardiau chwarae. Ysgrifennwch symiau o arian ar bedwar cerdyn â'r llythren 'T' (yn cynrychioli twyllo) ar yr olaf, e.e.

10c	20c	50c	£1	T
-----	-----	-----	----	---

Bydd yr athro yn cymysgu'r cardiau, yna'n eu dal yn ei law fel na all y dosbarth eu gweld. Gofynnwch i'r plentyn cyntaf ddewis rhif, rhwng 1 a 3. Os yw'n dewis 3, dylid cyfri 3 cerdyn, ac yna edrych i weld beth sydd ar y trydydd cerdyn – ai 10c, 20c, 50c, £1 neu T. Os yw'n dewis rhif 1, yna dylid edrych ar y cerdyn sydd gyntaf yn y pecyn. Bydd angen i'r athro nodi'r swm ar ddarn o bapur o dan enw'r plentyn, cyn cymysgu'r cardiau a symud at y plentyn nesaf. Wedi i bawb gael nifer o gynigion, dylai'r athro gyfri cyfanswm casgliad yr unigolion. Pwy fydd wedi casglu'r swm fwyaf o arian? Pwy fydd wedi twyllo fwyaf?

### Yr hanes

Mae'r stori o'r Beibl heddiw yn sôn am ddyn oedd yn casglu arian fel rhan o'i waith bob dydd. Ei enw oedd Mathew a'i waith oedd casglu trethi. Pan mae person yn gweithio, bydd yn rhoi rhan o'i gyflog i'r llywodraeth er mwyn talu am ysgolion, ysbytai, ffyrdd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac ati. Gelwir hyn yn 'talu trethi'. Yn amser Iesu Grist, roedd pobl yn arfer mynd at gasglwyr trethi fel Mathew i dalu eu trethi. Roedd gan gasglwyr trethi fel Mathew enw drwg am dwyllo – byddent yn cadw ychydig o arian iddynt eu hunain er mwyn dod yn gyfoethog. Felly, doedd neb yn eu hoffi.

Darllenwch y stori gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau sydd ar y Rhestr Adnoddau.

### Atgyfnerthu'r stori

Gofynnwch i'r plant gynllunio parti.

Beth fydden nhw'n ei ddewis fel bwyd/diod/gemau i'r parti?

Petaent yn cael gwahodd rhywun enwog i ddod i'r parti, pwy fyddai'n cael gwahoddiad ganddynt? (canwr pop/seren pêl-droed/rygbi/golff/seren ffilm/teledu?).

Adolygwch y stori Feiblaidd.

Pwy gynhaliodd barti?

Beth oedd yn cael ei ddatlu?

Pwy oedd y person arbennig i gael gwahoddiad?

Pwy nad oedd yn hapus am y parti a'r hyn oedd yn digwydd?

**Mynd ymhellach**

Bydd angen 2 ddarn o bapur, pinnau ffelt inc parhaol, pensel a rhwbiwr.

Gan ddefnyddio'r pinnau ffelt inc parhaol, dylid gwneud llun dyn. Eglurwch mai Mathew ydyw. Dywedwch fod athrawon y Gyfraith yn anhapus fod Iesu Grist yn cymysgu gyda Mathew a'i ffrindiau am eu bod nhw'n gwneud pethau drwg fel twyllo. I athrawon y Gyfraith roedd bywyd Mathew a'i ffrindiau'n llawn o bethau anghywir a drwg (marciwch nifer o groesau bach ar hyd siâp Mathew ar y papur). Doedd Athrawon y Gyfraith ddim yn meddwl ei bod hi'n bosib i berson fel Mathew newid (defnyddiwch y rhwbiwr i geisio chwalu'r croesau bach. Ni all y rhwbiwr ddileu'r croesau bach).

Yna, gwnewch lun o Mathew ar y papur arall – y tro hwn defnyddiwch bencil. Ychwanegwch y croesau bach i gynrychioli'r pethau anghywir yr oedd Mathew wedi eu gwneud. Dywedwch wrth y plant fod Iesu Grist yn gwybod sut un oedd Mathew. Roedd yn gwybod fod Mathew wedi bod yn twyllo pobl, ond (defnyddiwch y rhwbiwr i chwalu'r croesau bach), roedd Iesu Grist yn gallu newid bywydau pobl. Roedd Iesu yn gwybod y gallai Mathew, gyda'i help a'i faddeuant ef, fyw bywyd newydd. A dyna a ddigwyddodd.

**Dysgu adnod**

'Oherwydd i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod', (Mathew 9:13)

Neu,

'Dyweddodd Iesu, "Dwi wedi dod i alw pechaduriaid, dim rhai sy'n meddwl eu bod nhw heb fai," (beibl.net).

Eglurwch fod athrawon y Gyfraith yn meddwl eu bod nhw heb fai (h.y. bod nhw ddim yn gwneud pethau nad yw Duw yn eu hoffi). Ond roedd Mathew yn gwybod ei fod yn bechadur (yn berson sy'n gwneud pethau nad yw Duw yn eu hoffi). Roedd yn barod i gyfaddef hynny a gofyn i Iesu am help.

**Munud i feddwl**

Gofynnwch i'r plant feddwl am eu bywydau, ac am y pethau y maen nhw'n eu gwneud nad yw Duw yn eu hoffi. Arweiniwch hwy i ddweud sori wrth Dduw a gofyn am help i newid.

**Cân**

'Sori Dduw' (Tyrd i Ddathlu, rhif 29)

**Gêm y ceiniogau**

Bydd angen nifer o geiniogau. Bydd yr athro yn cuddio amrywiol ddarnau o geiniogau yn ei d/ddwrn a rhaid i'r plant ddyfalu faint mae'n eu cuddio. Neu,

**Gêm Newid llwyr!**

Roedd Mathew yn arfer twyllo, ond gyda help Iesu newidiodd i fod yn onest. Gofynnwch i'r plant awgrymu sut y newidiodd y bobl ganlynol:

Roedd Iestyn yn arfer bod yn drist, ond gyda help Iesu newidiodd i fod yn .....

Roedd Sioned yn arfer bod yn anufudd, ond gyda help Iesu newidiodd i fod yn .....

Roedd Rhys yn arfer bod yn anghwrtais, ond gyda help Iesu newidiodd i fod yn .....ac ati.

**Adnoddau Ychwanegol****Taflenni gwefan amserbeibl.org**

Cyfres B: Pobl y cwrddodd Iesu â nhw

**Cyfres PowerPoint Beibl Bach i Blant**

Cyflwyniad 41: Syniad da

